# Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot:
# Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

## Cynnig i sefydlu ysgol 3-11 cyfrwng Saesneg yn lle ysgolion Alltwen, Godre'rgraig a Llangiwg

### 1. Cyd-destun

Wrth baratoi cynigion statudol yn ymwneud ag ysgol, mae'n ofynnol i Awdurdod Lleol asesu effaith posibl y cynigion ar deuluoedd lleol a'r gymuned leol trwy baratoi Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei gynnal yn unol â'r canllawiau a nodir yng Nghylchlythyr 011/2018 Llywodraeth Cymru: 'Cod Trefniadaeth Ysgolion'.

Mae'r ddogfen hon yn cael ei chynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori i alluogi ymgyngoreion i'w hystyried fel y nodir yn y côd, a bydd yn parhau i gael ei hadnewyddu a/neu ei diweddaru yn ôl yr angen drwy'r broses ymgynghori.

### 2. Y Broses Asesu

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei hysbysu gan y canlynol:-

- Adolygiad o ryngweithio presennol rhwng yr ysgol a'r gymuned[1.] –Yr ysgolion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion a holl ysgolion eraill yr ardal yn cynnwys ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Tystiolaeth o ddigwyddiadau cynharach i ymgynghori â'r ysgolion [6]
- Archwiliad cyfun o gyfleusterau cymunedol [2, 8,9]
- Trafodaeth â Sefydliadau partneriaid angor allweddol i gael gwell dealltwriaeth o fylchau presennol mewn darpariaeth a'u gwaith yn y gymuned [1, 3, 9]
- Astudiaeth bwrdd gwaith o ddata eilaidd [3, 4]
- Cyfweliadau â phersonél sy'n ymwneud yn agosaf â'r ysgolion, darpariaeth anstatudol a'r gymuned ehangach [1,7]

- Astudiaeth Cwmpasu yn cynnwys Cwmtawe yn ei gyfanrwydd [8]
- Ymarfer mapio yn ymestyn o Ystalyfera i Drebannws a Phontardawe gan gynnwys Alltwen a phentrefannau Cilmaengwyn ac Ynysmeudwy[10]

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda Phenaethiaid, Dirprwy Benaethiaid, Clercod, Swyddogion Cymorth yr Ysgolion Cynradd, Llywodraethwyr, aelodau o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ac uwch staff ym mhob un o'r ysgolion sydd dan sylw. Mae canfyddiadau'r cyfweliadau wedi cael eu defnyddio i ddehongli ehangder, math, amledd a hyd gweithgarwch cymunedol yn safle pob ysgol.

## 3. **Y cynnig**

O fis Medi 2025, mae'r Cyngor yn cynnig sefydlu ysgol 3-11 cyfrwng Saesneg â chanolfan cymorth dysgu arbenigol, mewn adeiladau newydd i gynnwys disgyblion o ddalgylchoedd Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'rgraig ac Ysgol Gynradd Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau yn dilyn hynny ar 31 Awst 2025.

Bwriedir i'r ysgol newydd gael ei hadeiladu ym Mharc Ynysderw, Pontardawe, a bydd yn rhan o gampws dysgu, iechyd a llesiant gan gynnwys Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Cwmtawe. Bydd y campws yn cael ei wella ymhellach yn sgil ychwanegu pwll nofio 6 rhes 25 metr newydd, â phwll ychwanegol ar gyfer dysgwyr i ategu'r cynnig iechyd a llesiant presennol ar gyfer disgyblion a'r gymuned ehangach ac i ychwanegu at fanteision cyd-leoli.

## 4. **Yr Ysgolion**

Mae Ysgol Gynradd Alltwen yn ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu bechgyn a genethod 3-11 mlwydd oed. Mae gan yr ysgol safle dyrchafedig amlwg ar Dyle Alltwen ac mae'n gweithredu rhwng dau adeilad ar wahân y ceir pellter byr rhyngddynt. Ceir darpariaeth amlapiol ac wedi'r ysgol ffyniannus yno, mewn adeilad dros dro ar safle'r ysgol.

Mae 59.3% yn hanu o'r dalgylch. Mae 20.3% o blant yn cael prydau ysgol am ddim (llai na chyfartaledd Castell-nedd Port

Talbot, sef 30.2%) a nodwyd fod gan 14.1% o blant anghenion dysgu ychwanegol (llai na chyfartaledd Castell-nedd Port Talbot, sef 20.2%).

Canfu arolwg Estyn yn Hydref 2018 fod gan yr ysgol lawer o nodweddion da yn cynnwys ethos cynhwysol a gofalgar, cynorthwywyr addysgu medrus ac arweinydd cryf ei gymhelliant.

Lleolir Ysgol Gynradd Alltwen tua 0.7 milltir o safle posibl yr ysgol newydd.

Mae Ysgol Gynradd Godre'rgraig yn ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu bechgyn a genethod 3-11 mlwydd oed. Mae'r ysgol tua 100 mlwydd oed ac mae mewn lleoliad dyrchafedig yn Heol Graig.

Yng Ngorffennaf 2019, cafodd Ysgol Gynradd Godre'rgraig ei symud dros dro o Odre'r Graig i Barc Ynysderw, ger Ysgol Gymunedol Cwmtawe, ar ôl i arbenigwyr ar ddaeareg ganfod fod risg posibl i fuarth yr ysgol yn sgil tomen o wastraff chwarel. Mae adroddiad pellach ym mis Medi 2021 wedi datgelu bod tomen y chwarel yn symud ac mae bellach wedi'i nodi fel 'ansefydlog'. Felly, mae'n amlwg y byddai'n anniogel i staff a disgyblion ddychwelyd i'r ysgol. Mae'r ystafelloedd dosbarth dros dro sydd bellach yn cartrefu disgyblion ysgol Godre'rgraig o safon dda, ond ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio'n barhaol yn y tymor hirach.

Mae 69.6% o'r disgyblion yn hanu o'r dalgylch. Mae 25.9% o blant yn cael prydau ysgol am ddim (llai na chyfartaledd Castell-nedd Port Talbot) a nodwyd fod gan 17.9% o blant anghenion dysgu ychwanegol (llai na chyfartaledd Castell-nedd Port Talbot).

Fe wnaeth arolwg Estyn ym Mehefin 2017 ddyfarnu fod y safonau ar y pryd yn dda ac roedd y rhagolygon ar gyfer gwelliant yn dda oherwydd roedd y cymorth a'r arweiniad gofalgar yr oedd staff yn ei gynnig yn sicrhau fod disgyblion yn gweithio'n gydweithredol ac yn annibynnol.

Lleolir yr ysgol a phentref Godre'r Graig tua 3.2 filltir o safle posibl yr ysgol newydd.

Mae Ysgol Gynradd Llangiwg yn ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu bechgyn a genethod 311 mlwydd oed. Mae'r ysgol

mewn lleoliad amlwg ger ymyl y ffordd yn Heol Newydd, Ynysmeudwy, ac mae'n gweithredu ar ddau safle gwahanol, y Bloc Meithrin a'r Prif Floc, a cheir tua 100 metr rhyngddynt ar hyd yr un ffordd.

Mae 58.6% o'r disgyblion yn hanu o'r dalgylch. Mae 34% o blant yn cael prydau ysgol am ddim (fwy na chyfartaledd Castell-nedd Port Talbot) a nodwyd fod gan 21.6% o blant anghenion dysgu ychwanegol (ychydig yn fwy na chyfartaledd Castell-nedd Port Talbot).

Fe wnaeth arolwg yn Ionawr 2019 ddyfarnu dyfarniadau da ym mhedwar o feysydd yr arolwg ac un digonol ac angen ei wella. Ystyrid fod y cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys a barnwyd bod ansawdd yr addysg yn dda ar y cyfan.

Lleolir Ysgol Llangiwg yn Ynysmeudwy tua 1.3 filltir o safle posibl yr ysgol newydd.

## 5. I ba raddau y caiff adeiladau'r ysgolion eu defnyddio fel adnodd cymunedol ar hyn o bryd

Bydd angen dadansoddi ac ymgynghori pellach i ddiweddaru canfyddiadau'r Asesiad Effaith ar y Gymuned hon, gan fod yr ymchwil cychwynnol archwiliadol wedi'i chynnal am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2020. Mae'r ddogfen hon yn cael ei chynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori er mwyn galluogi ymgyngoreion i'w hystyried. Bydd angen adnewyddu canfyddiadau 2020 a'u craffu'n drwyadl er mwyn cadarnhau neu ddiwygio'r ddealltwriaeth gyfredol, os bydd angen ailymweld â'r Asesiad Effaith ar y Gymuned.

Mae Ysgol Gynradd Alltwen wedi gosod ei phrif neuadd a'i hadeilad dros dro i amrywiaeth o grwpiau (bale 'Tiny Toes' a dosbarthiadau Jiwdo) ond nid yw'n dymuno cystadlu ac efallai lleihau'r defnydd o'r Ganolfan Gymunedol leol yn Heol Dyffryn. Ceir ychydig o fannau eraill yn yr ysgol sy'n addas i'w gosod, ond dros y blynyddoedd, mae'r ysgol wedi buddsoddi'n raddol mewn ystafell dosbarth oedd yn cael ei thanddefnyddio i greu'r 'Cwtch'. Mae'r ystafell wedi cael ei haddasu a darparwyd offer i redeg sesiynau wythnosol ar gyfer rhieni a phlant bach, caffi darllen, Grŵp Annog ar gyfer rhieni a gweithgareddau chwarae seiliedig ar berthnasoedd. Defnyddir yr ystafell hefyd fel lleoliad diogel ar

gyfer plant o oedran cyn-ysgol (‘Babbling Babies’), i gynnal ymweliadau’r Ymwelydd Iechyd ac ar gyfer Banc yr Undeb Credyd. Mae’r ddarpariaeth bellach yn rhan anhepgor o ethos ‘Families Connect’ yr ysgol.

Caiff darpariaeth gofal plant ‘Hoots’ ei redeg fel busnes ac mae’n darparu gofal amlapiol cynhwysfawr ar gyfer hyd at 19 o blant 3-11 oedd, a heir hyd at 48 o ddisgyblion yn mynychu ar adegau gwahanol. Hefyd, ceir cylch chwarae/clwb wedi’r ysgol dyddiol sy’n agored tan 5.15yh. Mae’r ddarpariaeth yn cyflogi 8 o staff rhan amser sydd â chymwysterau llawn ym mhob agwedd o’r gwaith yn arwain at y Cyfnod Sylfaen, yn cynnwys Anogaeth, ‘Playworks’, a Lleferydd ac Iaith. Ceir cysylltiadau â thîm ADY a Seicolegwyr Addysg Cyngor Castell-nedd Port Talbot oherwydd eu hagosrwydd at yr ysgol.

Yn dilyn 18 mlynedd o ddatblygu, bydd ‘Hoots’ yn llwyddo’n rheolaidd i gyflawni safon Aur HSPSS (Gwasanaethau Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy’ a’r ‘Dyfarniad Gweithle Bychan ac Iechyd’. Mae rhieni yn ystyried fod gofal plant ar y safle yn hanfodol o safbwynt iechyd a lles y disgybl, ac mae’n sicrhau fod pontio yn naturiol ac yn ddiogel ac mae’n sefydlu ymdeimlad o berthyn.

Mae ‘Hoots’ yn gyfleus i rieni oherwydd nid oes unrhyw ystyriaethau o ran cludiant i ollwng a chasglu plant, a fyddai fel arall yn wir yn achos darparwyr gofal plant preifat Stryd Herbert (‘Lullaby’s’ a ‘Little Steps’ a’r wyth gofalwr plant cofrestredig sy’n gweithredu yn eu cartrefi eu hunain yn ardal Pontardawe).

Cafodd disgyblion Ysgol Gynradd Godre’r Graig eu symud i Barc Ynysderw yng Ngorffennaf 2019 o ganlyniad i risg ganfyddadwy y gallai tomen o wastraff chwarel lithro i fuarth yr ysgol. Cyn cael ei symud, roedd yr Ysgol Gynradd yn gallu darparu clwb wedi’r ysgol dri diwrnod yr wythnos, Grŵp Mam a Phlentyn ffyniannus ddwywaith yr wythnos, a chlwb chwaraeon unwaith yr wythnos. Roedd y Grŵp Mam a Phlentyn yn adnodd pontio ac ‘allgymorth’ defnyddiol i dorri cylch difreintedd a chreu dolen gyswllt rhwng yr ysgol a’i chymuned. Y bwriad, cyn symud yr ysgol, oedd datblygu’r cysylltiadau hyn â’r ysgol ymhellach i greu dosbarthiadau rhifedd a llythrennedd i rieni. Byddai’r ysgol hefyd yn cynnal ei ffeiriau haf a Nadolig traddodiadol.

Ers symud, arbrofwyd â gweithgareddau wedi'r ysgol ar safle Parc Ynysderw, ond nid ydynt wedi bod yn llwyddiannus oherwydd mae rhieni sydd heb geir yn cael trafferth casglu plant sy'n aros wedi'r diwrnod ysgol traddodiadol. Gall hyn hefyd fod yn wir yn achos plant na all gyrraedd yr ysgol yn ddigon cynnar ar gyfer y Clwb Brecwast. Nid yw'r ysgol yn y lleoliad newydd yn llwyddo i weithredu o ran budd i'r gymuned ar hyn o bryd, fel yr oedd yn achos safle Heol Graig.

Ar yr adeg adrodd, collodd Ysgol Gynradd Llangiwg ei chylch chwarae, darpariaeth cofleidiol a'r Grŵp Dysgu Teuluol, ond mae'n dal yn cynnig clwb wedi'r ysgol ar gyfer chwaraeon, celf a'r côr. Mae'r diffyg gofal cofleidiol wedi effeithio ar bontio i'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r ysgol yn parhau i gynnal cyngherddau a marchnad Nadolig sydd wedi bob yn boblogaidd a llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol yn cyfrannu at Fanc Bwyd 'Pantry' ac mae'n fan casglu ar gyfer y banc. Mae'r ysgol yn cyfranogi ym menter 'Fy Nghwm Gwyrdd' (gweler YGG Trebannws isod). Bellach, ni ddefnyddir adeiladau'r ysgol fel adnodd cymunedol.

I fod yn drylwyr, mae ymchwil wedi'i gynnal hefyd ynghylch ysgolion eraill Cwmtawe a allai gynnig defnydd i'r gymuned o adeiladau eu hysgol a dylanwadu ar y cynnig hwn, Adolygwyd y bar raddau y defnyddir pob ysgol fel adnodd cymunedol, gan gyfeirio'n benodol at Ysgol Gymunedol Cwmtawe, YGG Pontardawe, YGG Trebannws ac Ysgol Gymraeg Ystalyfera.

Mae gan Ysgol Gymunedol Cwmtawe ystod eang o weithgarwch allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen amrywiol a chynhwysol yn cynnwys chwaraeon, dawns, côr, cerddoriaeth a drama dros y diwrnod ysgol estynedig i bob grŵp blwyddyn. Mae'r ysgol a'r disgyblion o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yn elwa o ddarpariaeth helaeth ar y safle (e.e. y Brif Neuadd, y labordai gwyddoniaeth a thechnoleg, mannau perfformio, cyrtiau tennis a phêl-rwyd yn yr awyr agored ac ati) a'r cyfleusterau hamdden sylweddol (6 maes chwarae maint llawn, Canolfan Hamdden a Stiwdio, a maes chwarae synthetig 3G) o fewn pellter cerdded rhwydd.

Mae YGG Pontardawe yn elwa ar hyn o bryd mewn buddsoddiad gwerth £2.2m sy'n cynnwys cyfleusterau ehangach a gwell ar gyfer gofal plant a'r Cyfnod Sylfaen. Wedi'i chwblhau yn 2021 a bellach yn gwbl weithredol, mae'r brif neuadd bellach wedi'i gwahanu'n

haws ac yn parhau i ddarparu cymysgedd gyfoethog o fentrau yn yr ysgol, rhaglen chwaraeon yr Urdd, digwyddiadau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, cartref ar gyfer Band Ieuenctid Cwmtawe, disgos yr ysgol, a'r Cylch Meithrin a chynllun chwarae gwyliau hynod o boblogaidd. Bydd yr ysgol yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Cymru ac mae'n bwriadu datblygu ystafell gymunedol nawr bo'r estyniad wedi'i chwblhau.

Mae YGG Trebannws wedi derbyn buddsoddiad gwerth £460,000 ac mae rhan gyntaf y gwaith cam 1 hwnnw i ddarparu darpariaeth gofal plant ar y safle a gwella cyfleusterau Cyfnod Sylfaen wedi'i chwblhau. Mae gwaith yn cael ei wneud i gwblhau cam 2 a fydd yn cynnwys adnewyddu'r Ganolfan Cymorth Dysgu. Mae YGG Trebannws yn cydweithio'n agos ag YGG Pontardawe a chlwb chwaraeon yr Urdd (bob wythnos ar ddydd Llun wedi oriau'r ysgol). Mae'r ysgol wedi cynnal gweithdy gofal rhieni 10 wythnos ac mae'n mwynhau defnydd o goetir lleol i gynnal gweithgareddau Ysgol y Goedwig. Mae mentrau'r ysgol ei hun yn cynnwys y ffeiriau Nadolig a haf traddodiadol/jamborî, diwrnodau chwaraeon a dathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Mae disgyblion yn cyfranogi'n sylweddol ym menter 'Fy Nghwm Gwyrdd', sef rhaglen casglu sbwriel/ailgylchu/amgylcheddol sy'n cael ei datblygu gan sefydliad gwirfoddol lleol ar y cyd ag Ecosgolion a Chadw Cymru'n Daclus. Mae'r lle i gynnal digwyddiadau cymunedol yn yr ysgol yn gyfyngedig, a bydd yn defnyddio Ysgol Gymunedol Cwmtawe neu Gapel Graig i gynnal rhai o'r cyngherddau sy'n denu nifer dda.

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera yn ysgol Gymraeg 3-18 sydd ag ystod o gyfleusterau hamdden a chymunedol ar y safle. Bydd disgyblion yn mwynhau dewislen gyfoethog o astudiaethau wedi oriau'r ysgol gan gynnwys gweithgareddau cerddoriaeth, dawns, drama, chwaraeon, Dylunio a Thechnoleg a Gwobr Dug Caeredin. Cynhelir sesiynau adolygu wedi oriau'r ysgol ar gyfer pynciau craidd y cwricwlwm ac mae gan yr ysgol gôr gweithgar. Mae pob disgybl yn mwynhau defnydd o'r neuadd chwaraeon a'r meysydd chwarae, ac mae'r grwpiau oedran hyn yn gallu defnyddio'r wal ddringo (mae'r pwll nofio wedi'i ddatgomisiynu). Mae gwaith wedi'i gwblhau yn ddiweddar ar gam terfynol y buddsoddiad sydd hefyd wedi gweld yr ysgol yn defnyddio adeilad newydd sbon sy'n cynnwys neuadd berfformio, cegin fodern a chyfleusterau bwyta ac ystafelloedd dosbarth newydd. Dymchwelwyd pwll nofio'r ysgol sydd wedi'i ddatgomisiynu ynghyd â bloc Tawe a'r bloc Cerdd/Drama er mwyn gwneud lle i'r adeilad newydd. Mae'r ysgol

hefyd wedi elwa’n ddiweddar o gae synthetig maint llawn 2G 100 x 60m newydd â chyfleusterau newid newydd ac ardal gemau aml-ddefnydd ar gaeau’r ysgol sy’n rhedeg ochr yn ochr a llednant yr afon Twrch.

Nid yw’r gymuned yn defnyddio adeiladau’r ysgol a chyfleusterau’r safle ar yn o bryd. Ceir defnydd cyfyngedig gan y cyhoedd o’r neuadd chwaraeon a’r meysydd chwarae. Bydd yr ysgol yn bwriadu cynyddu'r defnydd o'r amwynderau newydd a fwriedir ar gyfer y gymuned ehangach.

**6. I ba raddau mae cyfleusterau cymunedol o fewn cyrraedd rhwydd o’r ysgolion presennol**

Mae’r ardal yr ymchwilir iddi yng Nghwmtawe yn ymestyn o Ysgol Gymraeg Ystalyfera yn y gogledd ddwyrain ar hyd datblygiad rhuban Godre’r Graig, Cilmaengwyn ac Ynysmeudwy I Bontardawe (cyfeiriwch at yr ymarfer mapio ar wahân sy’n nodi’r holl gyfleusterau cymunedol o fewn y tir sydd dan sylw). Mae ar ddwy lan camlas Abertawe i Drebannws yn y de orllewin ac mae’n ffinio ag Alltwen yn y de ddwyrain.

Mae gan yr ardal hanes diwylliannol balch yn gysylltiedig â’r diwydiannau glo, haearn a chynhyrchu tunplat, ond o ganlyniad i grebachu’r diwydiannau hyn yn yr ugeinfed ganrif, lleolir cymunedau’r cwm ymhlith y 30-50% o’r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ceir cyfleusterau cymunedol niferus ac amrywiol eu math, a cheir crynodiad ohonynt o amgylch poblogaethau dwys Ystalyfera a Phontardawe yn benodol.

Bydd angen dadansoddi ac ymgynghori pellach i ddiweddaru'r mapio gofodol sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau sydd i'w gweld isod, os oes angen adnewyddu'r Asesiad Effaith ar gyfer y Gymuned hwn. Cynhaliwyd yr adolygiad canlynol ac roedd yn gywir ym mis Tachwedd 2020.

Bydd y cynnig i sefydlu campws dysgu â chyfleusterau iechyd a hamdden modern ym Mharc Ynysderw yn crynhoi cyfleusterau ymhellach yn nhref Pontardawe. Byddai disgyblion a allai adael Ysgol Gynradd Godre’r Graig (pellter o 3.2 milltir), Ysgol Gynradd Llangiwg (pellter o 1.3 milltir) ac Ysgol Gynradd Alltwen

(pellter o 0.7 milltir) yn elwa o'r gymysgedd gyfoethog o weithgareddau chwaraeon, celf, diwylliannol a chymdeithasol o fewn pellter cerdded i'w hamgylchedd addysgu a dysgu newydd.

Mae'r cyfleusterau cymunedol sydd o fewn cyrraedd rhwydd i'r tair ysgol gynradd yn eu lleoliadau presennol (h.y. Ysgol Gynradd Alltwen Primary yn Nhyle Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'r Graig yn Heol Graig ac Ysgol Gynradd Llangiwg yn Heol Newydd, Ynysmeudwy) yn cynnwys:-

Yn Alltwen -

- Parciau a mannau chwarae yn Lôn Tanyrallt, Gwynfryn a Bryn Morgrug (hefyd 'Harry's Park')
- Canolfan Gymuned Heol Dyffryn – sy'n cynnal, ymhlith nifer o ddefnyddwyr eraill, y turnwyr coed, ioga, cicbaffio, dawnsio neuadd modern, Grŵp Rhiant a Phlentyn, 'Let's Dance' a 'Fit Steps'. Mae rhywfaint o gapasiti ar gael i gynnwys rhagor o ddefnyddwyr ar fore yng nghanol yr wythnos. Mae mynediad a pharcio yn y Ganolfan yn anodd iawn a gall hynny atal darpar ddefnyddwyr.
  Rheolir y Ganolfan gan Ysgol Gymuned Cilybebyll sydd â pherthnasoedd da iawn â'r ysgol, gan drefnu gwasanaethau coffa a chyngherddau Nadolig ar y cyd. Defnyddir y ganolfan ar gyfer cyngerdd gan ddisgyblion Blwyddyn 6 pan fyddant yn gadael.

- Mannau Agored – yn cynnwys cae rygbi Alltwen, gardd gymunedol y 'Triongl' (y mae ysgolion ysgol Alltwen yn helpu i'w chynnal a'i chadw) a Chanolfan Glan yr Afon Glantawe. Mae'r olaf o'r rhain yn rhedeg Academi Addysg ble bydd plant, yn cynnwys disgyblion Alltwen, yn cyfranogi mewn astudiaethau meysydd, gweithdai, helfeydd bwystfilod bychan a sesiynau darganfod yn yr awyr agored. Bydd plant yn elwa o sesiynau diwrnod llawn, y gellir eu cynnal am dymor neu'r flwyddyn academaidd gyfan, ac maent yn helpu'r sawl a allai fod yn 'ddifreintiedig' i ddatrys problemau, magu hyder a bod ag agwedd fwy cadarnhaol at fywyd. Mae'r Academi wedi'i achredu gan Agored Cymru a bydd yn derbyn dros 100 o bobl ifanc bob wythnos (mae disgyblion ysgol uwchradd wedi cyflawni cymhwyster

Sgiliau Hanfodol Lefel 2 Agored Cymru). Bydd ymarferwyr hunangyflogedig yn cerdded i'r ysgol ac yn mynd â chyfranogwyr ar droed i'r Ganolfan (ar hyd Llwybr Beiciau Cenedlaethol 43 Sustrans neu Ffordd Sant Illtyd).

- Amrywiaeth o Eglwysi, Capeli ac Addoldai – mae'r ysgol ac Eglwys Sant Ioan ill dwy yn elwa o rannu lleoliad ar gyfer ymarferion côr yr ysgol a gweithgareddau 'Eglwys Anniben'. Bydd yr ysgol yn defnyddio Eglwys Sant Pedr i gynnal Gŵyl y Cynhaeaf. Bydd Merched y Wawr yn cwrdd yng Nghapel Pontardawe.

Yng Ngodre'r Graig ac o fewn cyrraedd rhwydd -

- Parciau a mannau chwarae niferus yn Heol y Gnol, Allt y Grug, Heol Penywern, Heol Hodgson, Pen Yr Allt, Parc Farteg, Maen Gwyn (safle Tai Tarian), Parc y Darren (bowls a thennis) ac yn Ffordd Glandŵr ble ceir MUGA a pharc sglefrio hefyd.

- Ceir defnydd cyfyngedig o'r Ystafell y Band ar yr A4067 tra bod y Clwb y Gweithwyr yng Nglan yr Afon yn yng Ngodre'rgraig yn cynnal 'Tiddlywinks2' (manylion maes o law). Mae Clwb Bechgyn a Merched Ynysmeudwy o fewn pellter cerdded ond mae wedi dioddef oherwydd diffyg buddsoddiad a chyflenwad parod o ymarferwyr lleol i redeg Clwb Ieuenctid.

- Rheolir Canolfan Gymunedol Ystalyfera gan y Cyngor Cymuned a cheir amrywiaeth o ddefnyddwyr cymunedol yno, yn cynnwys Dawnsio Llinell, Grŵp Gwnïo, Cylch Meithrin, 'Weightwatchers' a dosbarth Dawns. Mae capasiti ar gael yn y Ganolfan ar gyfer mwy fyth o ddefnyddwyr, a cheir cynigion am ddosbarthiadau ymarfer corff i'r henoed gan 'Age Cymru' a sesiynau 'Clwb Cwtch' sy'n cael eu cynnal ar-lein ar hyn o bryd (sesiynau blasu'r Gymraeg yn canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant).

- 'Tiddlywinks' - darparwyr dysgu estynedig, gofal plant a chyfleoedd chwarae i blant rhwng 6 wythnos oed ac 13

mlwydd oed, Dydd Llun - Ddydd Gwener, 7yb - 7yh. Mae'r cyfleusterau yn y Ganolfan yn cynnwys ystafelloedd i Fabanod a Phlant Bach, maes chwarae a chaban pren. Gallant ddarparu ar gyfer 11 o blant dan 2 oed a 32 o blant sy'n 2 oed neu'n hŷn. 'Tiddlywinks2' yw'r cyfleuster ychwanegol a gwyliau'r ysgol ar gyfer 32 o blant sy'n 7 oed neu'n hŷn ac mae wedi cael ei gofrestru a'i ddatblygu o fewn Clwb Gweithwyr Godre'r Graig. Mae Tiddlywinks yn gwasanaethu Cwmtawe gyfan, yn cynnwys rhannau o Bowys.

- Ymddiriedolaeth Datblygu Ystalyfera yn hen adeilad HWB yn Stryd Fasnachol - bellach, mae'r cyfleusterau yn darparu ar gyfer dosbarthiadau cyfrifiadureg (4 gwaith yr wythnos), ioga a Tai Chi, crochenwaith a dosbarthiadau Gwasanaethu Cwsmeriaid. Mae'r adeilad hefyd yn gartref i'r Clwb Celf, y Clwb Gwnïo, 'Stitch R Us', a cheir ffisiotherapydd preswyl yno.

- Mannau agored - yn cynnwys Parc Cyhoeddus Godre'r Graig (mae'r Cyngor Cymuned yn bwriadu datblygu'r ardal hon ar y cyd â'r ysgol i ddarparu llwybrau natur) Meysydd chwaraeon yn CPD Godre'graig, CPD Ynysmeudwy FC (a MUGA), Clwb Rygbi Ystalyfera ac ar safle Ysgol Gymraeg Ystalyfera. Ceir adran iau gynyddol yng Nghlwb Pêl-droed Ynysmeudwy a bydd Ysgol Gynradd Godre'r Graig yn defnyddio'r maes i gynnal ei diwrnod chwaraeon.

- Amrywiaeth o Eglwysi, Capeli ac Addoldai - defnyddir Neuadd Dewi Sant yn Ystalyfera i gynnal cyngherddau ysgol ond nid mor aml erbyn hyn gan gofio capasiti neuadd newydd Ysgol Gymraeg Ystalyfera. Capel Annibynnol Gurnos yw cartref C.A.T.C.H. a'r Banc Bwyd a gaiff ei reoli ar y cyd gan Ymddiriedolaeth Datblygu Ystalyfera.

Ar sail yr uchod, gellir gweld fod yr ardal sy'n cael ei hadolygu yn cynnwys cyfleusterau cymunedol da, ac os caiff disgyblion Ysgol Gynradd Godre'r Graig eu symud i Barc Ynysderw, bydd datgysylltiad canfyddedig â'r cyfleusterau lleol hyn gan yr ymatebwr.

Yn Ynysmeudwy (Llangiwg) –

- Mae Parc Ynysmeudwy o fewn cyrraedd rhwydd ar droed o'r ysgol. Mae grŵp o rieni wedi sefydlu Cyfeillion y Parc gyda Chyngor Tref Pontardawe. Mae plant yr ysgol yn cyfranogi'n sylweddol mewn plannu coed a gweithio gyda natur yn y parc fel rhan o fenter y dosbarth gwyrdd.

- Rheolir Canolfan Gymunedol Ynysmeudwy gan Gyngor Tref Pontardawe, ac mae'r lle hwn hefyd o fewn cyrraedd rhwydd o'r ysgol ar droed. Mae'r Ganolfan yn cynnig cymysgedd bywiog o weithgareddau cymunedol sy'n cynnwys dosbarthiadau Arlunio, Rainbows a Brownies, Dawns, a Tai Chi ar nos Wener, clwb ieuenctid i bobl ifanc 10-16 oed sydd mor boblogaidd, mae sesiwn ychwanegol rhwng 6.00 a 8.00yh yn cael ei geisio.

- Mae gan Gartref Gofal Preswyl Dan y Bryn a'r ysgol lawer o gysylltiadau agos, a bydd y plant yn cynnal cyngherddau (Dewi Sant ayyb), yn rhoi wyau Pasg a blychau o siocledi yn anrhegion i'r trigolion, ac mae llawer o'r plant yn 'gyfeillion gohebol' i'r henoed.

- Mae gan Eglwys Efengylaidd Mynydd Elim ac Ysgol Gynradd Llangiwg gysylltiadau agos, oherwydd bydd y plant yn mynychu gwersi ynghylch Bedyddiadau a phriodasau, ac maent yn cyfranogi yn yr Apêl Blychau Nadolig. Bydd cynrychiolwyr yr Eglwys yn dod i'r ysgol i gynnal gwasanaethau boreol. Mae Eglwys Elim yn bwriadu datblygu neuadd eglwys gymunedol newydd yng Nghoed Cae, yn dibynnu ar sicrhau digon o gymorth grantiau.

- Mannau Agored – Mae Maes Hamdden Pontardawe (a reolir gan Gymdeithas Chwaraeon a Hamdden Pontardawe) o fewn cyrraedd rhwydd o'r ysgol ar droed. Mae gan y 'Rec' ddau faes rygbi, dau faes pêl-droed a dau faes criced. Bydd yr ysgol yn defnyddio'r Rec i gynnal ei diwrnod chwaraeon a defnyddir y meysydd chwarae'n rheolaidd gan Glwb Rygbi Pontardawe, Clwb Rygbi Trebannws, CPD Pontardawe United, Clybiau Criced Pontardawe a Llandarsi, Cadlanciau'r Awyrlu, a dyma gartref Sioe 'Calon y Cymoedd'. Mae'r ystafelloedd newid a'r pafiliwn wedi dyddio ac mae gwir angen eu hadnewyddu.

Gellir mynd i Ganolfan Glan yr Afon Glantawe ar hyd llwybr tynnu camlas Abertawe, ac mae'r ysgol wedi defnyddio'r Ganolfan yn flaenorol i gynnal astudiaethau amgylcheddol (yn union fel Ysgol Gynradd Alltwen uchod) trwy fuddsoddi'r Grant Difreintedd Disgyblion.

- Mae Pwll Nofio Pontardawe a Chanolfan Celfyddydau Pontardawe hefyd yn gwasanaethu Ynysmeudwy a Llangiwg, oherwydd maent yn agos at safle'r Ysgol.

Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod y cyfleusterau cymunedol sydd o fewn cyrraedd rhwydd o'r tair ysgol bresennol a effeithir gan y cynnig hwn. Y cynnig yw symud disgyblion yr ysgol i ganol tref Pontardawe a Pharc Ynysderw. At ddibenion rhagolwg, ceir adolygiad cyflawn o'r cyfleusterau y byddai gan y plant fynediad atynt pe baent yn symud i safle Parc Ynysderw (cyfeiriwch hefyd at yr ymarfer mapio ar wahân sy'n lleoli pob un o'r cyfleusterau hyn).

- Parciau a mannau chwarae – yng Ngellideg yn Rhydyfro (yn cynnwys cwrt chwarae pêl) a Pharc Trebannws (cartref Clwb Rygbi Trebannws hefyd) Parc Brenin Siôr V, Pontardawe, yn cynnwys cyrtiau tennis a lawnt bowlio.

- Mae Neuadd Gymunedol Alltycham Rhydyfro (ARCH) a reolir gan Gyngor Tref Pontardawe yn cael ei ddefnyddio'n llawn gyda'r hwyr i gynnal Dawns, Tai Chi, clwb wedi'r ysgol, Clwb Garddio, pwyllgor gefeillio ac ati. Yn ystod y dydd, caiff ei defnyddio gan y Grŵp Plant Bach, 'Age Concern' a'r Clwb Crefftau.

- Mae Neuadd Trebannws (a reolir hefyd gan Gyngor y Dref) yn ganolbwynt i'r pentref. Mae ganddi amserlen brysur yn cynnwys y Cylch, boreau coffi, crosio a gwnïo, Clwb Yr Henoed, Tae Kwon Do, Kung Fu a Brownies.

- Mae Canolfan y Groes, Pontardawe, yn cael ei redeg yn breifat, ond mae'n darparu ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector megis y Gymdeithas Hanes, Grŵp Celfyddydau ayyb. Mae rhai o''r sefydliadau wedi'u colli i Hwb y Gors (hen Ysgol Gynradd Cwmgors) a Chanolfan Celfyddydau Pontardawe. Dyma brif leoliad cyrsiau 'Dechrau'n Deg', cyfarfodydd Amddiffyn Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol

a Siambr Fasnach Pontardawe. Yn ogystal â'r Oriel ac ystafelloedd eraill y gellir eu llogi, mae'r Groes yn cynnwys Unedau Busnes yn cynnwys gwniadwraig, dau Gwmni Gofal, Menter Grantiau Bwyleri/Economaidd, cwmni peiriannau gwerthu a ffotograffydd.

- Canolfan Gelfyddydau Pont yw prif leoliad drama, cerddoriaeth, crefftau a'r celfyddydau perfformio ym Mhontardawe. Mae sefydliad Cyfeillion y Ganolfan yn cydweithio'n agos ag ysgolion lleol ac maent yn rhedeg cynllun gwirfoddoli ar hyn o bryd. Bydd y Ganolfan, ei lle ymarfer a'r oriel yn cynnal 'Little Boxes', sef dathliad o hanes Canolfan y Celfyddydau o'r adeg pan oedd yn Sefydliad y Glowyr.

- Llyfrgell Pontardawe a'r Hwb. Mae gan y llyfrgell berthynas dda â phob ysgol, yn enwedig Llangiwg. Mae'n darparu ar gyfer ymweliadau gan ddosbarthiadau, sesiynau gweithgareddau, gweithdai ysgrifennu creadigol ac astudiaethau gwaith cartref. Mae'r Hwb yn gartref i Ganolfan y Gymraeg (Tŷ'r Gwrhyd) sy'n cydweithio'n agos â'r Fenter Iaith. Ceir sesiynau galw heibio ynghylch Treth Cyngor, gan yr Undeb Credyd a gan Gyngor ar Bopeth. Bydd sefydliad Cyfeillion yn cynorthwyo i godi arian i dalu am sgyrsiau gan awduron a haneswyr.
- Mae'r Ganolfan Treftadaeth mewn lleoliad canolog tu ôl i'r Dillwyn Arms ac mae'n ganolfan arddangos ac yn Bwynt Gwybodaeth ar gyfer Ymwelwyr. Caiff ei rhedeg gan wirfoddolwyr, ac â chymorth pobl ifanc o'r ysgolion cynradd a chyfun lleol, bydd yn dathlu treftadaeth, diwylliant a hanes cyfoethog ac amrywiol Cwmtawe. Mae arwyddocâd y Ganolfan Dreftadaeth wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda buddsoddiad rheolaidd yn cael ei wneud gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Mynydd y Betws.

- Mannau Agored – yn ogystal â Chamlas Abertawe (sy'n dal yn bwysig iawn i'r ardal ac sy'n cael ei chynnal gan Gymdeithas y Gamlas), Parc Ynysderw (safle arfaethedig yr ysgol newydd) yw'r brif ganolfan ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

  Ar hyn o bryd, mae Parc Ynysderw yn cynnwys tri maes pêl-droed llawn, un maes Academi (9 bob ochr), amrywiaeth o

feysydd hyfforddi, 2 gae rygbi llawn, maes synthetig 3G â llifoleuadau, a maes Cynghrair Cymru amgaeedig gan ofal CPD Pontardawe Town. Ceir hefyd ystafelloedd newid, dau gwrt tennis, a man chwarae bychan ag offer ar gyfer plant.

Caiff y meysydd chwarae eu cynnal a'u gosod fel rhan o Brydles rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chymdeithas Chwaraeon Parc Ynysderw a CPD Pontardawe Town.

Defnyddir y meysydd yn rheolaidd gan Gynghrair Iau, Cynghrair Ieuenctid a Chynghrair Menywod Gorllewin Morgannwg, CPD Pontardawe Town, Clwb Rygbi Pontardawe, Clwb Rygbi Trebannws, CPD Rhos ac Ysgol Gymunedol Cwmtawe, a chânt eu llogi'n achlysurol gan Glais, Clydach Sport a'r Urdd.

Ceir perthynas waith dda rhwng y Prydleswyr, yr ysgol ac Ymddiriedolaeth Celtic Community Leisure sydd wedi'i lleoli ar y safle.
Defnyddir y meysydd ar gyfer hyfforddiant canol wythnos ar gyfer timau iau (ond nid oes llifoleuadau), gemau Ieuenctid a Hŷn ar ddydd Sadwrn a rygbi Bach/Iau ar fore Sul.

Bydd Clwb Rygbi Trebannws yn defnyddio Parc Trebannws ar gyfer y tîm hŷn ond bydd yr Ieuenctid (mae 275 ohonynt wedi'u cofrestru â'r clwb) yn chwarae ym Mharc Ynysderw. Bydd pob un o dimau hŷn CPD Pontardawe Town yn chwarae ym Mharc Ynysderw (ceir cymysgedd o Ieuenctid ac Aelodau Hŷn, tua 60-80 o chwaraewyr). Bydd y 220 chwaraewr iau (6-16 oed) sydd wedi'u cofrestru gyda CPD Pontardawe hefyd yn chwarae yn y lleoliad. Ar fore Sadwrn, bydd oddeutu 300-350 o chwaraewyr yn defnyddio Parc Ynysderw.

Mae Clybiau hefyd wedi dweud y byddent yn y dyfodol yn hoffi gweld yr ystafelloedd newid yn cael eu hailwampio, llifoleuadau yn cael eu gosod ar rai o'r meysydd, rhai o'r meysydd yn cael eu draenio a gwelliannau yn cael eu gwneud o ran parcio ceir.

Hefyd, mae gan ardal Pontardawe gymoedd coediog helaeth syn dilyn Afon Clydach. Mae Cwm Du Glen a Phlanhigfa

Glanrhyd (rhan o Ystâd Arthur Gilbertson, yn dyddio'n ôl i tua 1877) yn llawn hanes ac maent wedi cynnal llawer o weithgareddau ar gyfer y cyhoedd a phlant dan nawdd 'Actif Woods Wales' a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ceir bioamrywiaeth gyfoethog yn y cwm ac ystyrir yn lleol ei fod yn lleoliad delfrydol i ddatblygu addysg ym maes astudiaethau cadwraeth ac amgylcheddol.

- Eglwysi a Chapeli – ac eithrio'r rhai a nodir uchod, defnyddir Eglwys Graig yn Nhrebannws i gynnal cyngherddau ysgol yn achlysurol. Mae wedi derbyn buddsoddiad yn ddiweddar i ddatblygu gardd gymunedol ar ei thir.

- Darpariaeth gofal plant – yn ogystal â 'Hoots' yn Ysgol Gynradd Alltwen, ceir nifer dda iawn o ofalwyr plant yn ardal Pontardawe. Ceir dwy feithrinfa breifat yn Stryd Herbert ('Lullaby's' a 'Little Steps') sy'n darparu hyd at 46 lle i blant rhwng 0 a 12 mlwydd oed. Maent yn cynnwys Clwb Brecwast, Gofal Amlapio, Clwb wedi'r Ysgol a Gofal yn ystod y Gwyliau. Mae 'Little Steps Childcare Ltd' wedi'i gofrestru i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen a gallu gludo plant i ysgolion lleol ac oddi yno.

  Ceir Cylch Chwarae yn YGG Pontardawe rhwng 8 y.b. a 5.00 y.h. ar gyfer 14 o blant 2-8 mlwydd oed.

  Mae Neuadd Trebannws yn rhedeg Cylch rhwng 9.30 a 11.30yb bob dydd.

  Hefyd, ceir wyth o ofalwyr plant yn yr ardal sy'n gweithio gartref ac yn cynnig lleoedd i 65 o blant rhyngddynt.

- Darparwyr Cyfleusterau Hamdden. Mae Ymddiriedolaeth Celtic Community Leisure yn rhedeg y cyfleusterau hamdden ym Mharc Ynysderw ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Wrth symud i Barc Ynysderw, bydd disgyblion Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg yn agosach at y cyfleusterau hyn yn ystod y diwrnod ysgol. Mae Ymddiriedolaeth Celtic Community Leisure yn rhedeg Canolfan Hamdden Pontardawe sy'n cynnwys neuadd chwarae â phedwar cwrt badminton, stiwdio, campfa, ystafell beiciau ymarfer, neuadd fowlio da

do a chyfleusterau ffitrwydd. Bydd tîm PASS Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn rhedeg sesiynau pêl-rwyd, badminton a thennis yn y Ganolfan fel rhan o fenter 'Pobl Ifanc Heini'. Defnyddir holl gapasiti'r Ganolfan Hamdden, ac yn sgil rhaglenni arloesol, gallai ymateb i gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i'r Parc o'r ysgolion cynradd sydd wedi'u heffeithio gan y cynnig.

Mae holl gapasiti Pwll Nofio Pontardawe (y bwriedir iddo symud i Barc Ynysderw o dan y cynnig hwn) hefyd yn cael ei ddefnyddio, a cheir hyd at 850 o blant yn cyfranogi, yn cynnwys disgyblion Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg (daw 80% o'r nofwyr o radiws o 5 milltir). Bydd Aerobeg Dŵr yn dilyn y Clwb Nofio Iau, yna ceir rhagor o ddefnydd gan ysgolion oddi allan i'r Sir, yna defnydd gan y cyhoedd a'r Academi Nofio. Mae'r cyfleuster yn cynnig achrediad trwy'r llwybr nofio ac mae wedi sicrhau canlyniadau ardderchog gyda'r STA, ac mae Nofio Cymru a Chwaraeon Cymru yn ystyried ei fod yn gyfleuster da iawn. Mae adeiledd y pwll nofio wedi dirywio'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae dadansoddiad risg diweddar wedi codi amheuaeth ynghylch ei ddyfodol.

Bydd symud disgyblion o Ysgolion Cynradd Alltwen a Llangiwg i'r campws arfaethedig yn golygu na fydd angen y bws cerdded a ddefnyddir ar hyn o bryd i gerdded y disgyblion i safle'r pwll nofio presennol.

Mae'r cae 3G synthetig â llifoleuadau ym Mharc Ynysderw wedi derbyn buddsoddiad i'w drosi o system artiffisial ag arwyneb tywod i system 3G o friwsion rwber. Gwneir defnydd llawn o'r maes 3G synthetig gyda'r hwyr yn ystod y gaeaf, ac mae'n boblogaidd iawn o safbwynt gofynion hyfforddi CPD Pontardawe Town, CPD Rhos, Clwb Rygbi Trebannws a Chynghreiriau Super Six Leisure. Hoffai'r Clybiau weld y meysydd glaswellt naturiol yn cael eu llifoleuo i greu mwy o gapasiti i hyfforddi yng nghanol yr wythnos pan fydd diffyg golau dydd yn atal hynny.

## 7. Effaith andwyol cau ysgolion ar y gymuned.

Yn ôl Estyn (yn 'Ystafelloedd Dosbarth Clyfar' 2015, ayyb) bydd cyrhaeddiad a chyflawniad academaidd yn gwella'n sylweddol pan

fydd disgyblion yn symud i adeiladau newydd neu rai wedi'u hailwampio'n sylweddol. Yn sgil ysgol newydd, ceir mwy o ddewisiadau, cyfleoedd gwell, technoleg symudol, ystafelloedd dosbarth â digon o le, a chyfleusterau TGCh addasadwy. Ym Mharc Ynysderw, bydd y manteision hyn cynnwys gweithgareddau cymdeithasol a chwaraeon sydd o fewn pellter cerdded rhwydd. I'r gwrthwyneb, ac i gynrychioli'r safbwynt lleol, mae angen ystyried manteision y cynnig mewn cymhariaeth â'r safbwyntiau dilyn (mae rhai ohonynt wedi'u mynegi'n dda ac yn gymwys, mae rhai yn amgylchiadol ac eraill yn anecdotaidd).

Byddai colledion i'r gymuned yn cynnwys:-

- Darpariaeth gofal plant 'Hoots' ac amlapiol a leolir ar dir Ysgol Gynradd Alltwen (yn effeithio'n amlwg ar bontio).
- Menter 'Families Connect' a'r gwasanaethau sydd wedi'u datblygu yn y Cwtsh yn Ysgol Gynradd Alltwen.
- Gostyngiad posibl yn nifer y plant ysgol sy'n drigolion Godre'r Graig yn mynychu 'Tiddlywinks' oherwydd mae eu hysgol newydd 3.2 filltir o'u hysgol gynradd flaenorol.
- Colli'r hyn sy'n cyfateb i ddau faes pêl-droed yn sgil y datblygiad ym Mharc Ynysderw (gweler mesur cydadferol FIT {Fields in Trust} yn ddiweddarach yn yr Adroddiad).
- Godre'r Graig yn colli'r unig fan cyfarfod mawr yn y pentref.
- Plant Ysgol Gynradd Alltwen yn rhoi'r gorau i gynorthwyo i gynnal a chadw gardd gymunedol triongl Alltwen.

Mae tystiolaeth amgylchiadol yn awgrymu:-

- Gostyngiad tebygol mewn masnach gan bobl yn mynd heibio yn effeithio ar 'Mark Wright's Ynysmeudwy Stores' a'r 'Welcome Shop' yn Alltwen.
- Y gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd er budd preswylwyr Cartref Gofal Preswyl Dan y Bryn yn cael ei golli neu ei lesteirio. Byddai'r un peth yn gymwys yn Ynysmeudwy yn achos y cysylltiadau rhwng yr ysgol ac Eglwys Efengylaidd Mynydd Elim.
- Bydd parhad cyfranogiad disgyblion Llangiwg yng ngwaith 'Cyfeillion Parc Ynysmeudwy' yn cael ei lesteirio trwy fod yn bellach o'r parc. (byddai'r un peth yn wir yn achos

unrhyw fentrau cymunedol pan na fydd plant ysgol yn bresennol yn y pentref yn ystod oriau ysgol).

- Trafferth datblygu perthnasoedd rhwng plant lleol a digwyddiadau bro gan y Cyngor Cymuned megis ffeiriau, Teithiau Natur, y Gwasanaeth Coffa ac ati, pan fydd y plant yn absennol o'u cymdogaeth yn ystod y diwrnod ysgol.
- Mae'n bosibl na fyddai rhai o blant Godre'r Graig a'r rhai sy'n byw yn bell o Barc Ynysderw yn gallu cyfranogi yn y Clwb Brecwast neu unrhyw Glwb Wedi Oriau'r Ysgol yn eu hysgol newydd, oherwydd, gan gofio fod 18.5% o drigolion Godre'r Graig heb gar a 26.7% heb gar yn Ystalyfera, ni fyddai rhieni yn gallu mynd â'u plant i'r ysgol a'u cludo oddi yno oddi allan i'r diwrnod ysgol traddodiadol. Cydnabyddir y bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer y sawl sy'n byw yn bell o'r ysgol newydd, i hwyluso'r diwrnod ysgol o leiaf ond nid tu hwnt i hynny. Hefyd, os bydd cymhorthdal yr AALl ar gyfer y ddarpariaeth Feithrin sydd wedi'i dadleoli yng Ngodre'rgraig yn cael ei ddiddymu pan fydd yr ysgol newydd yn agor ym Medi 2024, fe wnaiff hyn effeithio ar y Blynyddoedd Cynnar, oherwydd byddai'n rhaid i rieni dalu costau pontio a chludiant, ac efallai na fyddai hynny'n fforddiadwy,
- Bydd symud Pwll Nofio Pontardawe i Barc Ynysderw yn golygu ei fod ymhellach o Ynysmeudwy (mae'r pwll o fewn pellter cerdded rhwydd ar hyn o bryd). Ni ystyrir fod Parc Ynysderw mewn lleoliad canolog ym Mhontardawe.

Roedd ymatebwyr yn barod iawn i atgoffa'r cyfwelwyr nad yw'r cynnig hwn, yn eu tyb hwy, yn hybu'r 'Agenda Teithio Llesol' na sail resymegol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot dros adeiladu 'Cymunedau Diogel, Cryf a Chydnerth'.

Mae'r brwdfrydedd a'r emosiwn twymgalon sydd wedi cael eu hadfywio gan y cynnig hwn wedi arwain at lawer o sylwadau anecdotaidd sy'n ymwneud â chanfyddiad o golli hunaniaeth y gymuned ac ymdeimlad o le. Ystyrir fod y cynnig yn gwahanu bywyd y pentref, ei ysbryd a'i hyder. Byddai llai o ryngweithio oherwydd byddai cymudo ar fysys ac mewn ceir i'r ysgol newydd yn golygu na fyddai cyfle i rieni gymdeithasu wrth gerdded plant i'r ysgol. Ystyrir hefyd fod y cynnig yn niweidiol i ymdrechion a wnaed hyd yn hyn, mewn cyfnod o gyni economaidd, i sicrhau fod cymunedau yn fwy cydnerth a chlos (barn sy'n seiliedig ar deimlad y bydd colli ysgol yn arwain at golli'r Swyddfa Bost, yr Orsaf

Betrol ac ati, ac yn y pen draw, yn golygu fod y pentref yn llai deniadol i deuluoedd newydd sy'n penderfynu peidio symud i'r ardal, ac yn y pen draw, bydd y pentref yn marw).

Ceir canfyddiad o ddatgysylltiad rhwng y tair cymuned a effeithir gan y cynnig hwn a Phontardawe – maent yn 'gymunedau o fewn cymunedau'. Nid oes unrhyw berthynas rhwng Godre'r Graig a Phontardawe. Mae'r tair ysgol a effeithir gan y cynnig hwn yn wahanol, wedi'u lleoli mewn tri phentref gwahanol ac ar wahân, ble mae plant wedi cael magwraeth wahanol, a chredir na ellir eu trin yr un fath a dod â hwy ynghyd mewn un ysgol newydd. Ystyrir fod Pontardawe yn 'ddinas' ac fe ddaw'r pentrefi a effeithir gan y cynnig hwn yn ddim amgenach na 'maestrefi'.
O safbwynt addysgol, ni ystyrid fod y cynnig yn cyd-fynd â Chwricwlwm 2022, sy'n cael ei arwain gan ddisgyblion ac yn dathlu ymdeimlad o berthyn yr unigolion, ble cawsant eu magu, eu lle, eu cynefin. Roedd y farn yn tueddu at gadw addysg cyfrwng Saesneg ym mhob pentref, ac yng Ngodre'rgraig, ystyrid y gallai plant gael eu colli i Ysgol Bro Tawe ac Ysgol Golwg Y Cwm ym Mhowys (1.1 milltir i ffwrdd, o gymharu â 3.2 i Barc Ynysderw). Roedd yr ysgolion cynradd Cymraeg yn pryderu am atyniad ysgol cyfrwng Saesneg newydd a'r effaith ar y Gymraeg yn sgil hynny, mewn ardal ble mae'r Gymraeg yn gryf.

Yn gyffredinol, byddai busnesau a darparwyr hamdden ym Mhontardawe yn croesawu'r cynnydd mewn ymwelwyr â'r gwariant eilaidd posibl mewn cysylltiad â rhagor o deuluoedd yn ymweld ag ardal Cwmtawe.

Yn olaf, atgoffwyd y cyfwelwyr mai'r bobl sy'n gysylltiedig â'r tair ysgol oedd yr hwyluswyr, a'r bobl hyn sydd wedi gwneud i bethau ddigwydd, nid adeiladau na chyfleusterau.

## 8. Cynlluniau i liniaru effaith os collir darpariaeth gymunedol o'r ysgolion

O dan y cynnig hwn, mae'r cynnig am ysgol mewn adeilad newydd hefyd yn cynnwys creu campws dysgu, iechyd a llesiant cymunedol. Bydd cyfleusterau addysg, iechyd a llesiant modern ac addas i'w pwrpas yn cael eu canoli ym Mharc Ynysderw i sefydlu canolbwynt neu hwb cymunedol.

Bydd yr holl weithgarwch yn y tair ysgol bresennol yn cael ei gynnal a'i amddiffyn fel y gwnaiff drosglwyddo'n naturiol i'r campws newydd.
Yn ddiamau, bydd rhywfaint o ddarpariaeth gymunedol yn cael ei cholli o'r ysgolion. Mewn rhai achosion, gellir lliniaru hynny, ond nid ym mhob achos:

- Gofal Plant 'Hoots' yn Ysgol Gynradd Alltwen – oni ddarperir darpariaeth sy'n cynnwys ystafelloedd dosbarth penodol, lle chwarae amgaeedig, cegin, toiledau, ystafelloedd synhwyraidd ac ati sy'n cyd-fynd â safonau Arolygiaeth Gofal Cymru yn yr ysgol newydd, bydd y busnes hwn yn cael ei golli. Pe cai'r busnes ei symud i rywle arall, byddai'r pontio naturiol i leoliad Ysgol Gynradd yn cael ei golli. Ni allai symud i Ganolfan Gymunedol Heol Dyffryn yn Alltwen, oherwydd, hyd yn oed os gwneir gwaith gweddnewid ac addasu costus (i gyflawni safonau Arolygiaeth Gofal Cymru), nid yw'r lleoliad yn cael ei ystyried yn ymarferol oherwydd y mynediad cyfyngedig o'r ffordd a'r diffyg darpariaeth parcio ceir. Efallai bydd rhieni sy'n dymuno cael gofal plant yn gorfod ceisio darpariaeth arall yn 'Lullaby's' neu 'Little Steps Childcare Ltd.'

- Ceir prinder adeiladau cymunedol yng Ngodre'rgraig. Nid oes llawer o ddewisiadau eraill yn lle adeilad yr ysgol, oherwydd mae Clwb y Gweithwyr a Neuadd y Band, heb foderneiddio helaeth, yn anaddas yn sgil y ffaith eu bod wedi'u lleoli wrth ffordd osgoi brysur, ac nid oes llwybr cerdded diogel.

- Byddai adleoli'r tair ysgol gynradd a effeithir i Barc Ynysderw o dan y cynnig hwn yn golygu mewn rhai achosion eu bod yn symud yn agosach i Academi Addysg Glan yr Afon Glantawe a'r Rec, sy'n cael ei ystyried yn rhywbeth buddiol.

- Byddai'r cynllun i ddatblygu Neuadd Eglwys Gymunedol newydd ar gyfer Eglwys Efengylaidd Mynydd Elim yng Nghoed Cae, Ynysmeudwy, yn cynyddu darpariaeth gymunedol yn y pentref pe cai Ysgol Gynradd Llangiwg ei cholli yn sgil y cynnig hwn.

- Bydd dull arloesol o drefnu rhaglenni'r Ganolfan Hamdden, y Pwll Nofio a'r maes 3G sydd eisoes yn brysur yn cynorthwyo i ateb galw a ddylai gynyddu am weithgareddau amser hamdden pe bai rhieni a mam-guod a thad-cuod y disgyblion a gaiff eu symud yn gwneud defnydd o gyfleusterau'r safle.

- Mae'r cynnig am yr ysgol newydd hefyd yn cynnwys ailddatblygu ystafelloedd newid Parc Ynysderw, ac wedi archwiliad o'r safle, sefydlu draenio cadarnhaol ar un o'r meysydd pêl-droed - mae hyn wedi cael ei groesawu gan Ysgol Gymunedol Cwmtawe, CCLT, Cymdeithas Chwaraeon Parc Ynysderw a CPD Pontartawe Town.

- Bydd ôl troed yr ysgol newydd a'r pwll nofio newydd yn golygu aberthu llecyn sy'n cwmpasu dau faes pêl-droed ar hyn o bryd. Roedd y safle yn destun gweithred gysegru gan y Brenin Siôr V, felly byddai Fields in Trust (FIT), fel gwarcheidwaid, yn dymuno ymrwymiadau cydadferol i wneud iawn am golli'r meysydd chwarae. Mae trafodaethau â FIT yn dangos eu bod yn ymatebol i newid lleol, ac mae gweithredoedd cysegru eraill yn cael eu hystyried (naill ai coetir yng Nglantawe neu fan agored yn y Rec). Byddai'r trefniant hwn yn amddiffyn y weithred gysegru newydd a'i diogelu'n barhaol rhag datblygu.

  Bydd trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal â Chymdeithas Chwaraeon Parc Ynysderw, oherwydd byddai colli meysydd pêl-droed dan y trefniant hwn yn golygu fod angen iddynt ildio 30% o'u les ar y safle. Maent yn ffafrio hyn.

  Mae rheolwyr meysydd chwarae Parc Ynysderw yn fodlon colli darpariaeth os caiff y meysydd eu had-drefnu i wneud defnydd gwell o'r tir sydd ar gael, os caiff yr ail faes pêl-droed ddraenio cadarnhaol fel y gall dderbyn rhagor o gemau (yn unol â'r bwriad), os caiff yr ystafelloedd newid eu hailwampio ac os gellir cynnal yr hyfforddiant ar y maes 3G synthetig ar ôl colli defnydd o'r meysydd glaswellt naturiol i wneud hynny (yn sgil colli cyfleusterau). Ceir cais hefyd am fae parcio gorlif.

Ceir croeso gofalus i'r cynnig hwn a pharodrwydd yn gyffredinol i'w dderbyn yn y gymuned chwaraeon.

9. **Cyfleoedd i wella cyfleusterau cymunedol presennol i dderbyn gweithgarwch ychwanegol Oddi Allan i Oriau'r Ysgol.**

Fel rhan o'r cynnig i sefydlu ysgol 3-11 cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif ar y safle ym Mharc Ynysderw, mae cyfleoedd yn bodoli i greu a gwella gweithgareddau a chyfleusterau cymunedol yn yr ysgol, fel dull o ategu darpariaeth bresennol yn ardal Pontardawe.

Cedwir cyfleusterau cymunedol presennol Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg a gellir ychwanegu atynt a'u gwella.
Mae'r trydydd sector yn gryf iawn yn ardal Pontardawe byddai sefydliadau dielw sy'n hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon, hamdden, diwylliannol, iechyd, addysgol ac amgylcheddol yn gymwys i hawlio amrywiaeth o grantiau allanol a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol. Mae hyn yn neilltuol o wir yn achos y sefydliadau Cyfeillion.
Yn yr un modd, gall Cynghorau Trefi a Chymunedau, fel yr haen o Lywodraeth Leol sy'n agosaf at y bobl, gymhwyso'n unigryw am grantiau a all wella cyfleusterau cymunedol presennol.
Mae ardal Pontardawe yn rhan o'r ardal budd i'r gymuned sy'n gymwys i gael cymorth o'r ffynonellau hyn:-

- Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Betws
- Cronfa Fferm Wynt Perthigwynion
- Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
- Cyllid refeniw 'Leader' y Cynllun Datblygu Gwledig
- Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan
- Grant Cyfleusterau Undeb Rygbi Cymru
- Grant Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- Grant Prosiectau Bychan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (ar gyfer Cynghorau Trefi/Cymunedau)
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Gellir gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau presennol er mwyn derbyn rhagor o weithgarwch Oddi Allan i Oriau Ysgol, ac mae hyn yn neilltuol o wir yn achos Canolfan Hamdden Pontardawe a'r Pwll Nofio. Mae eu rheolwyr wedi awgrymu, yn sgil yr ysgol newydd, y bydd dull mwy arloesol o raglennu dosbarthiadau, amserlennu creadigol, defnydd dyfeisgar o adnoddau staffio ac ati. Yn gyffredinol, mae'r sawl sy'n gyfrifol am reoli'r cyfleusterau

chwaraeon awyr agored ym Mharc Ynysderw wedi croesawu’r cynlluniau, oherwydd ceir cyfleoedd i ddraenio’r meysydd, cyfleusterau newid newydd, gwell mynediad, maes parcio gorlif ac ad-drefnu cynllun y safle i gael rhagor o le i chwarae. Yna, byddant hwy eu hunain yn mynd ati i ychwanegu at y safle trwy gynnwys llifoleuadau a gwella’r seilwaith mewn modd sy’n gysylltiedig â sicrhau statws Cynghrair Cymru. Gellir cyflawn hyn trwy ddefnyddio’r grantiau sy’n benodol i Ward Pontardawe ac ar gael i’r Ward yn unig.

## 10. Casgliad

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn cydnabod pwysigrwydd Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre’r Graig a Llangiwg o ran darparu lleoliad i gynnal digwyddiadau yn yr ysgol, gweithgarwch allgyrsiol a defnydd cymunedol. Yn dilyn gwerthuso, dangoswyd fel rhan o’r cynnig hwn ei bod hi’n hanfodol sicrhau fod y rhyngweithio presennol rhwng y gymuned a’r ysgol yn cael ei gynnal, ei adleoli neu ei wella fel y bo’n briodol, heb unrhyw effeithiau croes na cholli amwynderau i’r gymuned ehangach. Argymhellir na ddylid colli’r defnydd cymunedol sydd wedi’i ddatblygu dros gyfnod estynedig.

Ceir ansicrwydd canfyddedig cyffredinol, a hyd yn oed pryder ymhlith yr ymgyngoreion, y gwnaiff y cynnig hwn danseilio hunaniaeth y pentref fel y maent yn ei hadnabod yn sylweddol. Ceir llawer o amheuon, ac mewn rhai achosion, anesmwythder ynghylch y cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif ym Mharc Ynysderw. Ceir barn y gall y cynnig fod yn anfanteisiol neu’n niweidiol i’r tair cymuned sydd dan sylw.

Mae’r broses o gwblhau’r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned wedi helpu i sicrhau dealltwriaeth well o’r ffordd orau o liniaru effaith ad-drefnu ysgolion ar gymuned, a dyna’r peth priodol i’w wneud. Y ffactor a ddylai bennu’r cynnig ad-drefnu ysgolion yw’r un sy’n ymwneud â sicrhau’r cynnig addysgol gorau i’r disgyblion.

Mae asesiadau o effaith yn bwysig oherwydd maent yn sicrhau fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i’w gyfrifoldebau at ei gymunedau, ac yn ychwanegol, mae wedi ystyried safbwyntiau ei randdeiliaid. Mae’r asesiadau hyn yn cynorthwyo â’r broses o wneud penderfyniadau oherwydd maent yn darparu gwybodaeth i

hysbysu swyddogion ac Aelodau am effaith (negyddol neu gadarnhaol) debygol unrhyw benderfyniadau ar gymunedau.